



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adolygiad thematig Estyn o
effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr
sy'n agored i niwed**

OGL

ISBN digidol 978 1 78859 503 2
© Hawlfraint y Goron Mai 2018
WG27868

Teitl yr adroddiad:

Adroddiad thematig Estyn: Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed

Manylion yr adroddiad:

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2016-17 yn dilyn yr argymhelliad gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n datgan:

'Dylai Llywodraeth Cymru arfarnu effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr sy'n agored i niwed mewn addysg bellach.' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, t.41)

Roedd yr argymhelliad hwn yn dilyn adolygiad y pwyllgor o ddull gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

At ddiben y cylch gwaith hwn, mae'r term 'dysgwyr sy'n agored i niwed' yn golygu dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal (PDG) a dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), mae safonau a gyflawnir gan ddysgwyr sy'n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach wedi gwella ar y cyfan.

Mae bron pob ysgol yn cynllunio cwricwlwm sy'n bodloni gofynion y Mesur. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn fwy cyfyngedig nag ydoedd ddwy flynedd yn ôl; gellir priodoli hyn yn rhannol i newidiadau i fesurau perfformiad.

Mewn rhai ysgolion, lleihawyd y dewis o gyrsiau galwedigaethol hefyd ac mae hyn yn effeithio ar briodoldeb y cwricwlwm sydd ar gael i lawer o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae yna rai problemau datblygiad hefyd gan fod nifer y cyrsiau lefel 1 a gynigir gan golegau yn gostwng.

Mae ansawdd cymorth personol mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn dda ar y cyfan ac mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o strategaethau ymyrraeth sy'n eu helpu i gyflawni deilliannau llwyddiannus. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyson yn y cymorth dysgu sydd ar gael a ddarperir gan anogwyr dysgu o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid. Mae effeithiolrwydd y cyngor gyrfaoedd yn amrywio gormod rhwng ysgolion.

Mae mwyafrif yr ysgolion a'r holl golegau yn arfarnu data perfformiad ac yn monitro cynnydd dysgwyr unigol. Fodd bynnag, mae rôl y consortia rhanbarthol mewn cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol o ran dysgwyr sy'n agored i niwed yn amrywiol, ac nid oes arfer cyffredin na chyson wedi'i sefydlu.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n derbyn gofal yn ganolog, ond mae'r arfer o olrhain rhai dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yn llai effeithiol.

Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr 14-19 oed yn ymddangos yng nghynlluniau strategol allweddol awdurdodau lleol, ond nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn arwain yn ddigon da at bolisi effeithiol i wella arferion ar draws yr holl sefydliadau ac, yn gyffredinol, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar wella agweddau yn unig ar addysg heblaw yn yr ysgol, megis UC Dau, gwaharddiadau, presenoldeb a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Argymhellion 1 a 2:

Dylai ysgolion, colegau addysg bellach, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n agored i niwed fel ei fod yn cyd-fynd yn fwy â'u cyfoedion, trwy:

A1 Olrhain a monitro cyflawniadau dysgwyr sy'n agored i niwed yn agosach, a dadansoddi data ar grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn well

A2 Gwella eu presenoldeb a sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar gymorth targedig

Mae'r argymhellion hyn yn cefnogi egwyddorion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yn uniongyrchol. Felly, rydym yn cefnogi'r argymhellion hyn o ran cyflwyno'r YEPF ymhellach mewn ysgolion a cholegau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod eisoes nad yw dysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn cael cyfle i gyflawni eu potensial bob amser.

Mae darpariaethau allweddol Fframwaith Gweithredu EOTAS, a ddatblygwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen traws-sector EOTAS ac a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn cynnwys:

- ymrwymiad i adolygu gofynion y cwricwlwm ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth EOTAS ehangach;
- arferion atgyfeirio a chofrestru safonedig i sicrhau bod lleoliadau mewn gwasanaethau EOTAS yn briodol ac yn caniatáu i ddysgwyr gyflawni eu potensial;
- canllawiau cenedlaethol ar gyfer fframweithiau comisiynu i sicrhau bod gwasanaethau nas cynhelir sy'n darparu EOTAS i awdurdodau lleol yn cynnal lefelau gwasanaeth priodol

Rydym yn gwybod hefyd, ar 31 Mawrth 2017, nad oedd 30% o'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn byw yn yr awdurdod a oedd yn darparu gofal iddynt (y rhiant corfforaethol). Mae hyn yn gallu creu heriau logistaidd i'r rhiant corfforaethol.

Ym mis Ionawr 2016, aethom ati i gyhoeddi'r cynllun addysg i blant sy'n derbyn gofal – [Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru](#). Mae'r cynllun addysg a gwasanaethau cymdeithasol hwn yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu i gryfhau trefniadau i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal fel eu bod yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i gyflawni eu huchelgeisiau, eu gobeithion a'u dyheadau.

Mae'r cynllun yn cynnwys camau dros dair blynedd i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol – awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, ysgolion a cholegau. Mae cyfraniad asiantaethau nad ydynt yn asiantaethau addysg, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn hanfodol. Mae'n hollbwysig eu bod yn cyfrannu at sicrhau bod sefydlogrwydd lleoliadau gyda darpariaeth addysg addas yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth cyn cytuno ar y lleoliad.

Mae ein cynllun yn cydnabod bod rhaid i daith addysgol plant sy'n derbyn gofal gael ei holrhain fel bod modd cyfnewid gwybodaeth a data pan fo plentyn yn symud ysgol ac i gadw cofnod cywir o'i ddysgu. Yn ogystal, mae gwell gwaith olrhain yn helpu i nodi bylchau yn natblygiad addysgol plentyn a lle mae angen cymorth ychwanegol – mae hyn yn bwysig iawn wrth fonitro plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir/y wlad a'r rhai sy'n mynychu ysgolion arbennig annibynnol sydd wedi'u cysylltu â chartrefi plant.

Mae cam rhif 24 yn ein cynllun yn nodi: *Dylid gwneud trefniadau i wella gweithgareddau olrhain er mwyn monitro cynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal a sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol a Chynlluniau Datblygu Unigol*

ystylron ar waith. Mae yna enghreifftiau o arferion da mewn rhai awdurdodau lleol lle mae systemau ar waith i olrhain cynnydd pob plentyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle mae plentyn yn cael ei leoli a'i addysgu

y tu allan i'r awdurdod lleol cartref. Dylai consortia addysg rhanbarthol weithio gyda'u Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n derbyn Gofal i nodi a rhannu enghreifftiau o systemau olrhain a monitro da.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a GWE wedi cyflawni gwaith prosiect sylweddol i wella systemau olrhain a monitro yn eu rhanbarthau, ac mae'r arfer da hwn wedi'i rannu trwy ein Grŵp Strategol Cenedlaethol sy'n cynnwys ymarferwyr addysgol.

Argymhelliad 3:

Dylai ysgolion, colegau addysg bellach, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n agored i niwed fel ei fod yn cyd-fynd yn fwy â'u cyfoedion, trwy:

A3 Arfarnu'r cwricwlwm i ystyried i ba raddau y mae'n bodloni anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ennill cymwysterau priodol

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Mae'n bwysig nad yw'r dewis o gysiau a gynigir yn cael ei ddylanwadu gan sut y maent yn cyfrannu at ddangosyddion perfformiad ar gyfer y darparwr yn hytrach na bod y dewis gorau ar gyfer dysgwyr unigol.

Gan weithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, consortia, undebau ac arbenigwyr rhyngwladol, rydym wedi bod yn cynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd ysgolion bresennol yng Nghymru i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Fel rhan o drefniadau hunanwerthuso newydd, bydd angen i ysgolion ddangos sut y maent yn gwneud gwelliannau ar gyfer pob dysgwr a lleoliad. Yn ogystal, rydym yn ystyried diwygio mesurau perfformiad a fydd yn ein galluogi i gadw llygad ar gyrhaeddiad disgyblion a chael gwell syniad o gyflawniad disgyblion ar bob lefel.

Rydym yn cydnabod bod angen i fesurau perfformiad sbarduno cwricwlwm cynhwysol ac amrywiol sydd o fudd i bob disgybl, a byddwn yn datblygu cyfres o fesurau perfformiad ansawdd a fydd yn dathlu pob gradd ac yn cydnabod cynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu'r argymhelliad a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* y dylai mesurau perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gael eu hehangu i gynnwys cynnydd sy'n berthnasol i fan cychwyn y plentyn mewn addysg ac yn ymestyn y tu hwnt i oedran ysgol statudol.

O ran cynnydd, mae'r canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a chynllunwyr cwricwlwm lleol ôl-16 yn ei gwneud hi'n glir y dylai dysgwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad at gyrsiau lefel 2 oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol gael cyfle i ddewis cyrsiau sy'n eu galluogi i wneud cynnydd da tuag at gymwysterau lefel 2. Dylai fod ystod briodol o gyrsiau o dan lefel 2 i ddiwallu anghenion dysgwyr y mae'r rhaglenni hyn yn fwyaf addas ar eu cyfer.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 27 Ebrill 2018 a gellir ei weld ar wefan Estyn:
www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig